Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Capelulo**
**Ffordd Treforus**
**Dwygyfylchi**
**Penmaenmawr**
**LL34 6RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Capelulo ym mhentref Dwygyfylchi ger Penmaenmawr yng Nghonwy. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Dwygyfylchi, er bod nifer dda o ddisgyblion yn dod o Benmaenmawr a'r ardaloedd cyfagos. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Ar hyn o bryd, mae 109 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac o'r rheini mae 84 o oed ysgol statudol a 25 o ddisgyblion o oed derbyn a meithrin. Saesneg yw mamiaith y rhan fwyaf o'r disgyblion ac mae 14 yn siarad Cymraeg gartref. Addysgir Cymraeg fel ail iaith i bob un o'r disgyblion. Nid yw dalgylch naturiol yr ysgol yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig. Nid yw unrhyw un o'r disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae gan 17% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny yn is na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd yr Awdurdod Lleol.

Mae anghenion addysgol arbennig gan 24% o'r disgyblion, ac mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan un disgybl. Bu dau o waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Yn ystod wythnos yr arolygiad, y dirprwy Bennaeth oedd y Pennaeth dros dro am fod y Pennaeth i ffwrdd o'i swydd oherwydd salwch. Y Pennaeth presennol oedd y Dirprwy Bennaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf yn 2005.

Mae'r gyllideb ysgol unigol yn 2011 – 2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Capelulo yn golygu mai'r gyllideb yw £3,495 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £13,941 a'r isafswm yw £2,935. Mae Ysgol Capelulo yn 44edd allan o'r 61 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Capelulo yn dda oherwydd bod:

- patrwm clir o welliant yn y rhan fwyaf o feysydd;
- bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn;
- safonau mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella ac maent bellach yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru;
- llais y disgyblion yn y broses benderfynu wedi'i ddatblygu'n dda; a bod
- y disgyblion yn hyderus, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd aeddfed tuag at fywyd yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan yr ysgol nodau clir a gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar godi safonau a diwallu anghenion disgyblion;
- data'n cael ei ddefnyddio a'i ddadansoddi'n dda i fonitro perfformiad;
- pob aelod o staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion;
- uwch aelodau staff, gan gynnwys llywodraethwyr, yn adnabod eu hysgol yn dda ac mae hunanarfarnu wedi'i ymgorffori'n dda; a bod
- yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy galluog a dawnus er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'u potensial;

A2 cynnwys targedau mesuradwy yng nghynllun datblygu'r ysgol er mwyn mesur cynnydd yn fwy effeithiol;

A3 ehangu'r ddarpariaeth medrau TGCh yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 i gynnwys ymdrin â data; a

A4 sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio strategaethau addysgu effeithiol yn gyson yn eu gwersi.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi codi a gostwng o gymharu ag ysgolion tebyg a'r meincnodau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r duedd ers 2009 yn dangos gwelliant yn y rhan fwyaf o'r pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol. Yn 2011, mae'r asesiadau athrawon wedi'u dilysu yn dangos bod yr ysgol bellach yn cyflawni ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ac mae yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r tri phwnc craidd yng nghyfnod allweddol 1, ac ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy galluog a dawnus yn cyflawni'n ddigon da bob amser mewn perthynas â'u galluoedd. Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1, ac mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r bechgyn yn gwneud yn well na'r merched mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 1, ac nid oes unrhyw wahaniaeth ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched, mewn Saesneg a gwyddoniaeth, yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau darllen da gan lawer o'r disgyblion. Mae ymwybyddiaeth dda o ffoneg gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1. Gwnânt gynnydd da a gall y rhan fwyaf ohonynt ddarllen yn rhugl ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant, gan roi sylw perthnasol i atalnodi. Mae ychydig ohonynt yn datblygu medrau darllen uwch fel crynhoi a sganio. Hefyd, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn ddiddordeb da mewn darllen, a gallant esbonio'u dewisiadau darllen.

Mae cynnydd y disgyblion mewn ysgrifennu yn debyg i'w cynnydd mewn darllen. Yng nghyfnod allweddol 1, gall bron yr holl ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ac mewn amrywiaeth o ffurfiau fel llythyrau, storïau ac adroddiadau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau digon hir erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn datblygu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau ar gyfer sillafu, fel gwybodaeth am batrymau llythrennau a ffoneg. Maent hefyd yn defnyddio paragraffau ac amrywiaeth o atalnodau yn gywir yn eu gwaith.

Mae medrau llafar da iawn gan y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. Maent yn siarad yn hyderus a gallant esbonio'n glir beth maent yn ei ddarllen ac am eu bywyd yn yr ysgol.

Mae medrau TGCh y disgyblion yn dda yn y Cyfnod Sylfaen, ond nid yw medrau trin data ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn mewn Cymraeg ail iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn defnyddio ymadroddion syml yn gywir ac yn frwdfrydig. Mae defnyddio Cymraeg achlysurol a dwyieithrwydd yn nodwedd gyffredin o gyfathrebu llafar rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o eirfa, yn siarad yn hyderus, ac yn darllen ac yn ysgrifennu brawddegau syml yn Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ddefnyddio geiriau Cymraeg yn hyderus yn yr ystafell ddosbarth.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod â phwy i siarad os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu helpu i ddatblygu agwedd aeddfed tuag at iechyd a ffitrwydd. Mae'r disgyblion i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n dda o bwysigrwydd bwyta bwyd iach.

Canran presenoldeb disgyblion yn 2010 oedd 95%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd yr awdurdod lleol. Mae bron pob un disgybl yn brydlon. Maent yn frwdfrydig ac yn ymuno'n weithgar fel unigolion ac mewn grwpiau gan ddangos gofal a pharch a chonsyrn tuag at eu cymheiriaid. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyfrannu'n effeithiol yn ystod gwersi.

Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hunanhyderus ac yn dangos agweddau mwyfwy aeddfed wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae bron pob disgybl yn cytuno bod athrawon yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae'r Cyngor Ysgol a'r Grŵp Eco (Eco Puffins) yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi gwneud cyfraniadau pwysig at wella cyfleusterau'r toiledau, yr iard chwarae ac ailgylchu gwastraff. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned leol drwy eu gwaith ar ddatblygu cynaliadwy, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu ysgogol i'w disgyblion. Caiff gwersi eu cynllunio'n fanwl gan hyrwyddo parhad a dilyniant effeithiol yn holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n hyrwyddo datblygiad personol a phrofiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion. Mae lle amlwg i gyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn y cynllunio. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ddigonol yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion wrth drin data mewn TGCh. Mae bron pob un o'r athrawon ac ymarferwyr eraill yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau yn dda i gymell disgyblion ac i ymgorffori medrau allweddol mewn gwersi.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygiad iaith Gymraeg yn dda ac mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae pob un o'r oedolion yn siarad Cymraeg yn rheolaidd â'r disgyblion. Ym mhob dosbarth mae'r disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig, mae disgyblion hŷn yn arbennig yn ymgymryd ag astudiaethau wedi'u cynllunio'n dda o hanes a daearyddiaeth yr ardal leol a Chymru.

Mae darpariaeth dda gan yr ysgol i gynnig addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, gan gynnwys gwneud defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned leol a lleoedd mewn rhannau eraill o'r byd, fel yr Eidal a Gwlad Pwyl. Mae'r ysgol wedi ennill gwobr y faner werdd Eco-ysgolion am yr eildro o ganlyniad i'r Cyngor Eco yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn llwyddiannus drwy gynlluniau fel ailgylchu, arbed ynni a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Lle mae'r addysgu yn dda neu'n well, mae'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda a defnyddiant ystod effeithiol o strategaethau addysgu. Maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion. Mae defnydd cadarn o ganmoliaeth ac anogaeth yn helpu rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol.

Ceir cydweithredu effeithiol rhwng yr athrawon a chynorthwywyr dosbarth ar draws yr ysgol. Caiff staff cymorth eu cynnwys yn weithredol mewn gwersi a gwnânt gyfraniadau sylweddol at ansawdd y dysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Yn yr holl ddosbarthiadau, mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi.

Ar y cyfan, mae disgwyliadau uchel gan yr athrawon ac fel arfer maent yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Mae'r athrawon yn cyflwyno gwersi ysgogol a heriol gan wneud defnydd dychmygus o adnoddau, gan gynnwys technoleg, i wella'r dysgu. Ar ei orau mae hyn yn effeithiol, ond mewn ychydig o wersi lle nad oedd yr addysgu gystal, nid oedd y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog yn anghyson ac nid yw'n diwallu eu hanghenion bob amser.

Mae'r athrawon yn cynnwys y disgyblion yn dda wrth osod eu targedau realistig a chyflawnadwy eu hunain ar gyfer gwella. Maent yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn darparu adborth defnyddiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ar gyflawniad ac ar ffyrdd i wella. Gwneir defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ym mhob un o'r gwersi bron. Mae'r athrawon yn rhannu'r nodau dysgu a'r meini prawf llwyddo gyda disgyblion, ac yn eu hailadrodd ar ddiwedd gwersi. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall pa mor dda maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt wneud i wella.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol o system olrhain yr ysgol i fonitro cynnydd y disgyblion ac y lywio'r cynllunio. Mae'r ysgol yn defnyddio data a barn broffesiynol yn dda i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r trefniadau adrodd i rieni yn dda, ac mae'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnwys sylwadau ar gynnydd a'r ffordd ymlaen.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd wedi'i threfnu'n dda, ac mae pawb yno'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gwasanaethau'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd a theimla'r disgyblion eu bod yn gallu mynd at y staff i gael cyngor ac arweiniad. Mae rheolau a gweithdrefnau wedi'u gwreiddio ar draws yr ysgol. Caiff buddion byw'n iach eu hyrwyddo'n dda ar draws y cwricwlwm ac mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda llawer o wasanaethau ac asiantaethau arbenigol fel nyrs yr ysgol, yr heddlu a gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth priodol i'r disgyblion a'r staff.

Mae polisi a gweithdrefnau priodol gan yr ysgol ar gyfer diogelu.

Mae'r cymorth a gynigir i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion hyn yn gynnar iawn ac yn darparu cymorth effeithiol. Mae asesiadau a chofnodion yn fanwl ac effeithiol; mae'r rhain yn llywio'r adolygiad rheolaidd o gynnydd tuag at dargedau mewn cynlluniau addysg unigol. Caiff disgyblion, rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol partner eu cynnwys yn briodol wrth gynllunio targedau ar gyfer y camau dysgu nesaf. Mae'r cynorthwywyr dysgu yn defnyddio rhaglenni arbenigol yn effeithiol i ddarparu cymorth i ddisgyblion. Nid yw'r trefniadau i gynyddu lefelau her i'r disgyblion mwy galluog a dawnus wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a chynhwysol sy'n darparu amgylchedd gofalgar a chroesawgar i bob disgybl. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff yn yr ysgol ac maent yn elwa o lefelau da o ofal a chymorth unigol. Cynigir mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ynghyd ag ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i ymgysylltu'n gadarnhaol ag amrywiaeth a dysgu amlddiwylliannol.

Mae'r ystafelloedd addysgu eang yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion yn yr ysgol. Mae darpariaeth dda ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a chynigir adnoddau da. Mae'r amrywiaeth eang o arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn dathlu gwaith y plant, gweithgareddau'r ysgol a digwyddiadau. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac maent yn cyfateb yn dda i anghenion y disgyblion. Mae adeiladau'r ysgol a'r ardaloedd allanol yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae nodau clir gan uwch reolwyr yn Ysgol Capelulo sy'n canolbwyntio ar godi safonau a diwallu anghenion disgyblion. Mae patrwm clir o welliant mewn safonau mewn llawer o feysydd. Mae'r pennaeth wedi cynnwys y staff a'r llywodraethwyr wrth

lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol, sef gweledigaeth sy'n seiliedig ar gyfoethogi bywyd trwy ddysgu. Maent yn defnyddio data'n dda i fonitro perfformiad ac maent yn gwybod pa mor dda maent yn perfformio mewn perthynas ag ysgolion tebyg.

Mae'r dirprwy bennaeth sydd newydd ei benodi wedi rhedeg yr ysgol yn effeithiol ers dechrau'r tymor. Mae'r uwch dîm rheoli yn gweithio'n dda â'i gilydd ac maent wedi llwyddo i feithrin ethos o gydweithredu agos a chymorth y naill i'r llall o fewn y staff. Mae'r staff yn ymateb yn dda i'w rolau fel arweinwyr cwricwlwm, ac maent yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn cynorthwyo gwelliant yr ysgol ymhellach ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus iawn ynglŷn â pherfformiad yr ysgol a'r materion sy'n effeithio arni. Maent yn cyfranogi'n weithredol yn y broses hunanarfarnu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o beth mae angen i'r ysgol ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn llwyddo i roi sylw dyledus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae wedi canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol fel y Cyfnod Sylfaen, asesu ar gyfer dysgu a phontio o fewn yr ysgol a gyda'r ysgol uwchradd. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion trwy'r cyngor ysgol a'r grŵp eco, ac o ganlyniad, mae medrau penderfynu'r disgyblion wedi'u datblygu'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol yn dda yn ystod ei chylch hunanarfarnu tair blynedd. Mae hyn yn eu cynorthwyo i nodi'r prif gryfderau a'r meysydd y mae angen i'r ysgol ddatblygu ynddynt. Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys perfformiad disgyblion, dadansoddi data, arsylwadau dosbarth, craffu ar waith disgyblion a thrafod gyda'r disgyblion, ynghyd â dadansoddi'r holiaduron disgyblion a rhieni. Yn ogystal, mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i argymhellion a wnaed gan yr awdurdod lleol yn dilyn eu hadolygiadau monitro. Fodd bynnag, nid yw safonau addysgu pob aelod o staff wedi cael eu monitro'n ddigon trylwyr. O ganlyniad, mae rhywfaint o anghysondeb yn ansawdd yr addysgu.

Mae cysylltiad priodol rhwng canlyniadau'r broses hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn canolbwyntio ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'n gosod targedau rhifiadol clir a mesuradwy mewn perthynas â chynnydd disgyblion na gwelliant mewn safonau. O ganlyniad, mae'n anodd i'r corff llywodraethol ddal yr ysgol i gyfrif ac i herio arweinwyr yr ysgol yn briodol ynglŷn â'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu diwethaf ym mhob maes bron. Mae'r cyfathrebu â rhieni wedi gwella, er bod ychydig o rieni'n dal i fynegi pryderon ynglŷn â'r mater hwn. Nid yw'r ysgol ychwaith yn addysgu'r ystod llawn o fedrau TGCh mewn perthynas â thrin data i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau arfer broffesiynol yn yr ysgol ac yn ehangach gydag ysgolion eraill yn y clwstwr. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth, er enghraifft, ar ddatblygu asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac mae hyn yn helpu cyfoethogi a chefnogi dysgu lles y disgyblion.

Mae rhieni'n gefnogol iawn i'r ysgol ac mae'r disgyblion yn elwa o ddigwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal gan y gymdeithas rhieni ac athrawon. Aeth yr ysgol ati i drefnu noson lwyddiannus yn rhannu technegau addysgu presennol yn seiliedig ar fedrau meddwl gyda rhieni.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda staff o'r lleoliad cyn ysgol, yr ysgolion clwstwr a'r ysgol uwchradd leol i gynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau trefniadau pontio da a pharhad yn y dysgu.

Mae'r partneriaethau â'r gymuned leol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth am hanes lleol a'u medrau cyfathrebu mewn digwyddiadau lleol. Mae'r disgyblion yn elwa o gydweithio â myfyrwyr addysg o Brifysgol Bangor. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o swyddogion yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae'r gwaith gyda swyddogion presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol ar les a phresenoldeb y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau staffio yn dda ac yn eu defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu. Mae lefel staffio uchel y mae'r ysgol yn gallu'i chynnal, ar hyn o bryd. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn cydweithredu'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac maent yn cynnwys y staff cymorth yn dda wrth gynllunio. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safon y cynllunio a'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae adeilad yr ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel, ac mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn dda.

Mae'r ysgol yn mynd ati'n effeithiol i gysylltu ei hadnoddau ariannol â blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a gwella'r ddarpariaeth drwy gynllun datblygu'r ysgol. Mae is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn adolygu'r gwariant yn rheolaidd ac yn cysylltu ag adran gyllid yr awdurdod lleol i gael cyngor ac arweiniad. Mae'r cyllid a gytunwyd i'w gario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bellach yn agos iawn at yr hyn a dderbynnir. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwebaeth ar ddata perfformiad**

**Dadansoddi data**

Mae’r garfan o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn yn gymharol fach ac ystyrir hyn yn ofalus wrth ddadansoddi data.

Yn 2011 perfformiodd yr ysgol yn well na’r teulu a Chymru ar bob lefel yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol wedi codi a gostwng dros y pum mlynedd diwethaf. Mae tystiolaeth arolygu, a gasglwyd drwy arsylwadau gwersi a thrwy graffu ar waith disgyblion, yn cefnogi’r asesiadau a wnaed yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 1, yn 2007 a 2009, roedd perfformiad yr ysgol mewn perthynas â’r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg ac ar gyfer disgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd) yn is na’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn yr un teulu ac ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, roedd gwyddoniaeth yn y 25% uchaf yn 2009. Yn 2008 roedd perfformiad yr ysgol yn uwch na’r cyfartaledd, er bod gwyddoniaeth, y tro hwn, islaw’r cyfartaledd. Mae’r darlun cyffredinol yn dangos yn glir fod cynnydd da wedi’i wneud ers 2009 o ran gwella safonau, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg, ac mae’r ysgol erbyn hyn yn y 25% ar gyfer y pynciau hyn, yn ogystal ag ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Er bod canran y disgyblion sy’n cyflawni uwchlaw’r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (lefel 3 neu uwch) wedi codi a gostwng hefyd, mae’r canlyniadau ar gyfer 2011 yn dangos bod yr ysgol bellach yn perfformio’n well na’r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru.

Yn 2011 fe wnaeth y merched berfformio’n sylweddol well na’r bechgyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ac fe wnaeth y bechgyn yn well na’r merched mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn 2011 yn y 25% uchaf ac yn sylweddol well na’r teulu a Chymru. Fe wnaeth perfformiad mewn mathemateg wella hefyd o’i gymharu â’r ddwy flynedd flaenorol; fodd bynnag, mae’n dal yn y 50% isaf ac mae islaw cyfartaledd y teulu ac ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Canran y disgyblion yn cyflawni L4+ mewn Cymraeg Ail Iaith oedd 30% yn 2010, ac mae hynny islaw cyfartaledd y teulu a Chymru. Gwnaed gwelliant sylweddol yn 2011 pan lwyddodd 80% o’r disgyblion i gyflawni L4+ a llwyddodd 40% i gyflawni L5. Mae hyn yn sylweddol uwchlaw cyfartaledd y teulu a Chymru. Codi a gostwng wnaeth canlyniadau yn y dangosydd pwnc craidd dros y pedair blynedd diwethaf, ac maent wedi bod yn y 50% isaf am ddwy flynedd. Serch hynny, mae gwelliant cyson wedi bod ers 2009 sydd bellach yn rhoi’r ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion mewn amgylchiadau tebyg ledled Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 2 nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched mewn Saesneg. Fodd bynnag, mae’r merched yn perfformio’n

well na’r bechgyn mewn mathemateg a gwyddoniaeth, a llwyddodd nifer sylweddol uwch o ferched na bechgyn i gyflawni L5 mewn gwyddoniaeth. Mae’r ysgol wedi perfformio’n well na’r teulu a Chymru dros y ddwy flynedd diwethaf o ran nifer y disgyblion sy’n cyflawni L5 mewn Saesneg. Perfformiodd yr ysgol ychydig islaw’r teulu a Chymru yn 2011 mewn mathemateg, ac yn sylweddol well na’r teulu a Chymru ar gyfer gwyddoniaeth ar L5. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd digonol o leiaf.

Mae tuedd tuag i fyny yng nghanran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar y cyd. Mae’r ysgol bellach yn perfformio’n well na’r teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron disgyblion

Cwblhaodd pumdeg pump o ddisgyblion yr holiadur. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n gofidio. Dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn delio â bwlio'n dda. Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno â'r datganiadau yn yr holiadur, sef bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, ac mae bron pob un ohonynt yn dweud bod llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer o'r disgyblion yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol, a theimla'r rhan fwyaf ohonynt fod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer i wneud eu gwaith. Er bod llawer o ddisgyblion yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, mae ychydig yn anghytuno â hynny. Mae llawer o ddisgyblion yn cytuno hefyd fod bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac yn ystod yr egwyl ginio.

### Holiaduron rhieni

Cwblhawyd wyth ar hugain o holiaduron. Mynegodd y rhieni farnau cadarnhaol ynglŷn â'r ysgol. Mae bron yr holl rieni yn fodlon â'r ysgol a dywedant fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Teimlant hefyd fod eu plentyn wedi ymgartrefu'n dda a'u bod wedi cael cymorth da gan y staff. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da, ac mae bron pawb yn cytuno bod ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda. Dywed pob un ohonynt fod yr athrawon yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed bob amser ac i wneud ei orau/gorau. Teimla'r rhan fwyaf o rieni fod y staff yn trin y plant yn deg a gyda pharch, ac maent o'r farn fod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae bron yr holl rieni yn cytuno bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed llawer o rieni eu bod yn cael gwybodaeth dda a chyson am gynnydd eu plentyn a'u bod yn teimlo'n ddigon esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol gydag unrhyw gwestiynau, awgrymiadau, neu broblem. Fodd bynnag, dywed lleiafrif nad ydynt yn glir ynghylch gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Dywed pob un o'r rhieni fod yr ysgol yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac i ymgymryd â chyfrifoldebau.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ray Owen | Arolygydd Cofnodol |
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dawn Roberts | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd chwech oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | BY12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |